Erbyn hyn roeden ar y blaen gyda chwe phwynt. Roedd pob un yn meddwl ein bod ni yn mynd i golli y gêm nesaf yn erbyn Waun Unedig, un o'r timau gorau yn y gystadleuaeth, ond diolch unwaith eto i Gruffudd, sgoriodd ddwy gôl arbennig iawn, 'roedd Gruff a'r holl dîm yn bles iawn gyda'i hun.

Erbyn hyn roedd tîm cyntaf Penrhyn-coch wedi tanio fyny cymaint roeddem yn siwr eu bod yn mynd i ennill y gwpan!! Roedd saib nes y gêm nesaf, cawsom amser i ymlacio a gwylio gemau eraill.

Ein gêm nesaf oedd yn erbyn Bois y Cwm, ennill 3-0, sgoriodd Martin Evans ei gôl gyntaf ac roedd yn wên o glust i glust, sgoriais i a Gruff hefyd.

Nawr roeddem trwyddo i rownd chwarter terfynol yn erbyn Tal-y-bont B, cawsant gosfa go lew a'r sgôr oedd 6-1, sgoriodd Martin a Gruffudd dair gôl yr un.